# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Mehefin 2022** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/1/22 – 31/3/22** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Darparu diweddariad i'r Aelodau ynglŷn â'r gwaith a wnaed gan yr adain archwilio mewnol yn ystod y cyfnod dan sylw** |
| **Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** | **Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Gwasanaethau Tai, Pobl a Threfnidiaeth a Diogelu'r Cyhoedd** |

Bu i'r Pwyllgor ystyried y Strategaeth Archwilio Mewnol blynyddol 2021/22 yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2021 lle pennwyd y prif feysydd gwaith i'r cynllun archwilio dros dro 2021/22. Ddaru'r Cynllun cynnwys adolygiadau a gafodd eu dwyn ymlaen o gynllun archwilio'r flwyddyn flaenorol, archwiliadau rheolaidd ee ardystio grantiau a gwaith cafodd ei flaenoriaethu ar sail risg, a ddefnyddir gan yr Adain Archwilio Mewnol er mwyn ffurfio barn sicrwydd.

O ran 2021/22, ni chynhaliwyd yr asesiad risg arferol gan fod y Cyngor yn wynebu risgiau newydd sy'n newid o hyd yn sgil y pandemig. Felly, bydd angen i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol asesu ei waith yn barhaus, gan ystyried anghenion a blaenoriaethau'r Cyngor yn reolaidd, wrth iddynt newid.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn nodi'r camau a gymerwyd hyd yma o ran cyflawni'r cynllun archwilio drwy ddarparu crynodeb o'r gwaith a wnaed. Mae hefyd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran adnoddau yn ogystal â chynllun gwella'r Adain.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Ystyried y gwaith a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran yr Adain Archwilio Mewnol.** |
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | **Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol yn ymgymryd â gwaith priodol a digonol i ddarparu sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.** |
| **Atodiadau:** | Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/1/22-31/3/22 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro |
| **Swyddog Adrodd:** | Alex Jenkins<br>Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol |
| **Dyddiad:** | 7 Mai 2022 |

# Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

# Legal and Governance Services

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Internal Audit Service

## Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol

## 1 Ionawr 2022 – 31 Mawrth 2022

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Paratowyd gan: Alex Jenkins,
Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol

Dyddiad Cyhoeddi: 7 Mai 2022

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio: 6 Mehefin 2022

# ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

## 01/01/2022 – 31/03/2022

### 1 CYFWLYNIAD

1.1 Cyflwynwyd y Strategaeth Archwilio a'r Rhaglen Flynyddol am 2021/22 i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor (PLlA) ar 24 Chwefror 2021.

1.2 Ni chynhaliwyd yr asesiad risg arferol gan y Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol (RhCAM) i grynhoi'r rhaglen weithredol am 2021/22, am fod y pandemig wedi cyflwyno risgiau newydd i'r Cyngor, sy'n newid yn gyson. Mae'r RhCAM felly wedi asesu'r gwaith ar sylfaen barhaus, gan ystyried anghenion a blaenoriaethau'r Cyngor yn rheolaidd, wrth iddynt newid.

1.3 Bwriedir i'r adroddiad hwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r PLlA am y gwaith a wnaed gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol (AM) drwy gydol pedwerydd chwarter blwyddyn ariannol 2021/22, a thynnu sylw at unrhyw bryderon a allai fod wedi dod i'r amlwg yn ystod yr archwiliadau a gwblhawyd. Mae copi o'r Rhaglen Archwilio Mewnol Dros Dro hyd at 31/03/22 yn Atodiad 1.

### 2 Y GWAITH ARCHWILIO A WNAED

2.1 **Y Cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Archwilio:**



2.2 Erbyn 31/03/2022 roedd cyfanswm o 102 eitem yn y Rhaglen Archwilio weithredol dros dro. Mae canran fwyaf o 70 o'r rhain naill ai wedi'u cario mlaen o'r flwyddyn flaenorol (ee archwiliadau sydd ar waith) neu'n ddarn o waith blynyddol (ee grantiau) sydd wedi'u cynnwys yn eitemau 'wedi'u cynllunio'. Mae'r 32 eitem arall wedi'u hychwanegu trwy gydol y flwyddyn, hy 'heb eu cynllunio'. (Mae'r eitemau heb eu cynllunio wedi'u nodi yn Atodiad I).

2.3 Cwblhawyd chwech darn o waith yn ystod y chwarter (gweler y tabl isod) a bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth benderfynu ynghylch barn flynyddol yr Adain Archwilio Mewnol:

| Maes Archwilio | Math o Archwiliad | Sicrwydd |
|---|---|---|
| **Adolygu Fframwaith Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22**<br>Sgôp: Adolygiad llywodraethu sy'n ystyried effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu, yn enwedig yn y meysydd y cyfeirir atynt yn benodol yng nghynllun gweithredu y DLlB. | Llywodraethu | Uchel |
| **GDPR mewn Ysgolion**<br>Sgôp: Rhaid i bob ysgol sy'n prosesu data personol dalu ffi i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG). Mae'r adolygiad yn cynnwys gwirio'r sefyllfa yn achlysurol er mwyn sicrhau bod gan holl ysgolion CSC gofrestriad dilys a chyfredol gyda SCG. NID yw'r gwaith yn cynnwys adolygiad o'r data a ddarparwyd i SCG. | GDPR/DP | Sylweddol |
| **Crwneriaid – Cymharu ffioedd ag Awdurdodau Llywodraeth Leol eraill**<br>Sgôp: Cymharu yn unol â chais PLlA. | Dilynol | Ddim yn berthnasol |
| **Gweithdrefnau Bancio Incwm**<br>Sgôp: Rhoi cyngor ar weithdrefnau bancio newydd ar gyfer incwm a gesglir o leoliadau CSC. | Cynghori | Ddim yn berthnasol |
| **Caffael – gweithdrefnau prynu**<br>Sgôp: Rhoi cyngor ynghylch gweithdrefnau cofnodi cyflenwadau a ddanfonir i gartrefi aelodau staff ee deunydd ysgrifennu ac ati. | Cynghori | Ddim yn berthnasol |
| **Canolfan Hamdden Plascrug – Stoc**<br>Sgôp: Rhoi cyngor ynghylch symud peiriannau gwerthu o'r Ganolfan Hamdden a rhoi gweithdrefnau a rheolaethau yn eu lle ar gyfer gwerthu stoc dros y cownter. | Cynghori | Ddim yn berthnasol |

2.4 Rhestrir isod enghreifftiau o arfer da sydd wedi'i nodi o'r archwiliadau a gwblhawyd y chwarter hwn. Mae'r gwaith hwn hefyd yn rhan o'r broses sicrwydd flynyddol:

- **Adolygu Fframwaith Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22**
  - Gweithdy effeithiol i drafod y mesurau a gymerwyd
  - Cydweithio effeithiol drwy'r gwasanaethau perthnasol
- **GDPR mewn Ysgolion**
  - Llywodraethu gwell yn sgil canoli'r ffioedd ysgol a delir i SCG
- **Gweithdrefnau Bancio Incwm**
  - Ystyried llywodraethu, risgiau a rheolaethau wrth gynllunio'r gweithdrefnau bancio yn sgil ailgyflwyno derbyn arian parod
- **Stoc Canolfan Hamdden Plascrug**
  - Ystyried llywodraethu, risgiau a rheolaethau wrth baratoi gweithdrefnau newydd ar gyfer gwerthu stoc

2.5 Mae cyfanswm o 33 o eitemau yn ddarnau o waith sy'n parhau (gweler Atodiad I). Mae Archwilio Mewnol wedi nodi enghreifftiau o arferion da o blith y rhain yn ystod y pedwerydd chwarter. Bydd y rhain hefyd yn cael eu hystyried wrth ffurfio barn flynyddol yr Adain Archwilio Mewnol:

- **Grant Caledi i Denantiaid** - mewnbwn gan archwilio mewnol (oherwydd y gwelliant o'i help gyda'r Grantiau Ardrethi Busnes) i wirio ceisiadau cyn eu talu er mwyn lleihau'r risg o orfod adennill taliadau anghywir / twyllodrus; defnydd o'r system analytig data 'ActiveData' hefyd galluogi gwirio taliadau yn erbyn gwybodaeth o'r 'National Anti-Fraud Network' a ffynonellau erial.
- **RA Addasu'r Economi** - wedi'i gydnabod gan fynychwyr i fod yn fforwm da a chynhwysfawr ar gyfer adfywiad ac adffurfiant o ganolfannau trefi.
- **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** – trefniadau mewn lle i ddechrau'r broses o adolygu'r fframwaith lywodraethu a'r cynllun gwelliant dilynol.
- **Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes** (EPBC) - templed wedi'i ddiweddaru i alluogi pob gwasanaeth i ddiweddaru eu cynlluniau parhad busnes; adolygiad o gynllun prif ddigwyddiadau'r Cyngor ar waith; cynrychiolydd wedi mynychu fforwm ystwythder lleol i gadarnhau cysondeb rhwng cyrff a bod unrhyw bractis da yn cael ei rannu.
- **Rheoli Risg** - arolwg o'r gofrestr risgiau hefyd ar agenda'r EPBC; trefniadau lliniarol mewn lle ar gyfer y risg newydd 19 (newid hinsawdd ac erydu arfordirol / llifogydd) a 20 (clefyd coed ynn).
- **Cod Ymddygiad** - archwilio mewnol a'r swyddog llywodraethu wedi cynnig mewnbwn i gynorthwyo'r gwasanaeth dysgu a datblygu i greu e-modiwl hyfforddiant ar Gòd, Moeseg a Thwyll.
- **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** - paratoadau mewn llaw i sicrhau bod rhif cywir o Aelodau Etholedig / Aelodau Lleyg ar BLIA o fis Mai, yn unol â'r Ddeddf.
- **Brexit** - cynrychiolydd wedi mynychu cyfarfod cydlynwyr trawsnewid WLGA i gasglu a dosbarthu gwybodaeth briodol.
- **Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol** - cynigion prosiectau newydd wedi'u darparu & panel wedi gofyn am gamau pellach lle'n addas.
- **Gweithdy'r Rheolwyr Corfforaethol** – diweddariadau i reolwyr cyf ffyrdd o weithio, polisi gofalwyr, strategaeth llesiant a nodau llesiant er gwybodaeth ac i ddatblygu rôl.
- **Ystwythder Seiber & Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth** - mae'r Grŵp yn darparu cefnogaeth weithredol, parodrwydd a chyfeiriad i ddelio ag a lleihau risgiau seiber a gwella diogelwch seiber y Cyngor, diogelwch a rheolaeth gwybodaeth. Mi fydd yn ffynhonnell o wybodaeth ac arbenigedd ac yn arolygu a monitro'r Risgiau a Chynlluniau Gweithredu Rheoli Gwybodaeth a Diogelu Seiber.
- **NMWAG** - Grŵp Archwilwyr Gogledd a Chanolbarth Cymru - Twyll: nod yw rhannu gwybodaeth a sgiliau cyf atal twyll i adeiladu ystwythder trwy'r ALl. Rhannwyd atebion holiadur Twyll Archwilio Cymru i benderfynu cyfeiriad dyfodol y grŵp.
- **Archwiliad Data** – trefniadau mewn lle i wella rheolaeth data a sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth.
- **Clic** – hyfforddiant ar gael i wasanaethau gan y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid i godi ymwybyddiaeth o gyfleusterau'r system.

2.6 Mae'r lefelau o sicrwydd a ddarparwyd ar gyfer yr holl archwiliadau a gwblhawyd, fel a ganlyn:




2.7 Ceir canllaw i'r meini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu'r lefel sicrwydd yn Atodiad II.

2.8 Cafodd cyfanswm o 23 'cam i'w cymryd' eu hargymell yn yr adroddiadau terfynol. O'r rheiny, barnwyd bod dim un yn angenrheidiol ac un yn sylweddol:




2.9 Amlinellir y meini prawf a ddefnyddiwyd i benderfynu'r 'camau i'w cymryd' yn Atodiad III.

2.10 Ni chyhoeddwyd camau sylweddol neu sylfaenol yn Chwarter 4. Cyflwynwyd adroddiad eithriedig i'r PLIA am y camau gweithredu sylweddol a oedd angen eu cymryd yn 2021/22 yn Chwarter 1, ac roedd yr un a gyhoeddwyd yn yr ail chwarter yn cyfeirio at weithdrefnau mân arian, yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith na dderbyniwyd datganiadau gan ddeiliaid imprest. Mae Archwilio Mewnol yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyllid ar hyn o bryd er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn.

3 **ADNODDAU**

3.1 Llanwyd strwythur yr Adain Archwilio Mewnol, fel a nodir yn Atodiad IV, am dri chwarter cyntaf 2021/22. Yn sgil y newid i swyddi Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol ac Uwch Archwilydd, mae'r swydd Cynorthwyydd Archwilio dan Brentisiaeth wedi bod yn wag er 1af Ionawr 2022 wrth i ni aros am ymateb i'n hachos busnes am Gynorthwyydd Llywodraethu ac Archwilio (gellir gweld y strwythur newydd arfaethedig yn Atodiad V)

3.2 Mae Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol newydd wedi bod yn ei swydd er 1 Ionawr 2022. Mae ganddi gryn brofiad ym maes Archwilio Mewnol a chafodd ffenest o chwe mis i gysgodi'r Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol blaenorol; mae Rheolwr Archwilio gwybodus a medrus yn ei chefnogi.

3.3 Treuliwyd cyfanswm o 865 diwrnod yn cyflawni gwaith archwilio am y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Mawrth 2022, sy'n cynrychioli 102% o'r diwrnodau aseswyd oedd eisiau i gwblhau'r rhaglen archwilio i ddiwedd y flwyddyn.

3.4 Mae'r RhCAM yn parhau i gefnogi Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (GPAC) sy'n sicrhau bod pob awdurdod yn dilyn arferion gorau ac yn gweithredu mewn ffordd gyson; ac yn cefnogi Grŵp Prif Archwilwyr Gogledd a Chanolbarth Cymru (GPAGChC) sy'n cymharu arferion ac yn rhannu dogfennau cyffredinol. Cynhelir y cyfarfodydd hyn gan ddefnyddio 'Teams'.

3.5 Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y GPAGChC Is-Grŵp i ystyried Atal Twyll, sy'n medru treulio mwy o amser ar y pwnc penodol yma. Mae'r Is-Grŵp yma'n cael ei fynychu gan y Rheolwr Archwilio (ar Teams).

3.6 Mae pob aelod staff yn sicrhau ei bod yn bodloni unrhyw amodau sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus, a'i bod yn cwblhau hyfforddiant gorfodol y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn:

- Mae pob aelod o'r staff archwilio wedi ymgymryd â gweminarau a modiwlau e-ddysgu'r Cyngor, i gynnwys y gweminar diweddar ar Còd, Moeseg & Twyll a dau ar Ddiogelwch Seibir;
- Mae'r RhCAM wedi mynychu weminarau rheolaidd CIPFA; ac yn parhau i wylio weminarau cyson ILM ar ganfod elfennau arweinyddiaeth; a
- Mae dwy aelod o staff yn parhau i astudio ar gyfer cymhwyster Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol, er bod problemau wedi codi trwy gydol y flwyddyn oherwydd y pandemig.

3.7 Mae trefniadau hefyd ar waith i feithrin sgiliau staff y gwasanaeth AM yn barhaus yn y meysydd archwilio / digidol / TGCh / atal twyll, a hynny drwy gael hyfforddiant a thrwy danysgrifio i ffynonellau gwybodaeth fel Fforwm Llywodraethu Gwell CIPFA.

3.8 Mae holl staff y gwasanaeth AM yn gweithio o gartref ar hyn o bryd.

## 4 CYNLLUN GWELLA 2021/22

| Cyf | Cydymffurfio â'r Safon | Camau sydd Angen eu Cymryd | Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|
| Safon 1311 | 5.4.5 A yw'r monitro perfformiad yn cynnwys gofyn am adborth?<br>Holiaduron heb eu dosbarthu trwy gydol y pandemig. | Holiaduron i'w dosbarthu unwaith bydd Rhaglen mewn lle.<br>Nodwyd unrhyw sylwadau o reolwyr yn dilyn archwiliadau, lle nad oes angen holiadur. | Yn ystod 2021/22 |
| Safon 2010 | 6.1.1 A yw'r PAM wedi penderfynu'r gwaith i'r uned mewn rhaglen yn ôl risg?<br>Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei asesu yn ôl y risg yn adweithiol. D'oes dim rhaglen ffurfiol mewn lle. | Paratoi rhaglen o waith yn ôl risg yn unol â rhaglen waith gwasanaethau.<br>Rhaglen archwilio dros dro mewn lle, yn ôl Adroddiad Cynnydd Chwarter 3. Trefniadau mewn lle am asesiad risg llawn ar gyfer rhaglen 2022/23. | Yn ystod 2021/22 |
| Safon 2050 | 6.1.15 Defnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd.<br>System map sicrwydd mewn lle – yn ofynnol i'w ddiweddaru yn gyson. | Y map sicrwydd i'w ddiweddaru a'i fonitro ynn nghyfarfodydd wythnosol y Tîm.<br>Y map sicrwydd erbyn hyn yn eitem reolaidd ar agenda cyfarfodydd y tîm, i'w ddiweddaru yn ôl yr angen. | Yn gyson yn 2021/22 |
| Safon 2500 | 6.6.1 Yw'r PAM wedi ystyried newid y farn archwilio mewnol pan mae materion yn codi wrth ddarparu archwiliad dilynol?<br>Ni ddarperir archwiliadau dilynol yn 2020/21 oherwydd y pandemig. | Darperir yr archwiliadau dilynol yn 2021/22.<br>Archwiliadau canlynol wedi'u cynnwys yn y rhaglen archwilio dros dro sydd mewn lle. | 31 Mawrth 2022 |
| Adroddiad Blynyddol | Y system Pantana (MKI) heb fod mor ddefnyddiol yn gweithio'n adweithiol.<br>Defnyddir Pentana (MKI) pan yn bosib, ond ddarperir gwaith adweithiol trwy ddefnydd ffolder electronig ar y cyd. | Y system i'w werthuso unwaith mae'r uned yn darpar wasanaeth arferol.<br>Dim yn addas ar hyn o bryd oherwydd y sefyllfa. | 31 Mawrth 2022 |

| **Rhaglen Archwilio Dros Dro 2021/22** | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Pwnc Archwilio** | **Sgôp / Nodiadau** | **Statws** |
| Newidiadau oherwydd y pandemig | | |
| Gwaith adweithiol ar sail asesiad risg | Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn adolygu systemau a gweithdrefnau ac yn ymgymryd ag unrhyw waith arall lle gall ychwanegu gwerth at weithrediadau'r Cyngor yn ystod y pandemig. | |
| - Grantiau Ardrethi Busnes, ayb dygwyd ymlaen | Sgôp: Grantiau Ardrethi Busnes – gwirio sampl o'r ceisiadau cyn talu; dilysu'r wybodaeth a'r dogfennau; cynnal profion eraill fel y bo'n briodol; eistedd ar banel ymholi / apelion. Mae mwyafrif y gwaith hwn wedi'i gwblhau yn 2020/21, ond mae ambell i gais gydag ymholiadau'n dal i aros am benderfyniad. | Cyfredol |
| - Grantiau Cofid - 2021 | Sgôp: Grantiau – gwirio sampl o'r ceisiadau cyn talu; dilysu'r wybodaeth a'r dogfennau; cynnal profion eraill fel y bo'n briodol; eistedd ar banel ymholi / apelion. | Heb ei gynllunio Cyfredol |
| - Grantiau Busnes 2022 | Sgôp; Grantiau 2022 – gwirio sampl o'r ceisiadau cyn talu; dilysu'r wybodaeth a'r dogfennau; cynnal profion eraill fel y bo'n briodol; eistedd ar banel ymholi/apelion. | Heb ei gynllunio Cyfredol |
| - Grantiau Dewisol 2022 | Sgôp; Grantiau 2022 – gwirio sampl o'r ceisiadau cyn talu; dilysu'r wybodaeth a'r dogfennau; cynnal profion eraill fel y bo'n briodol; eistedd ar banel ymholi/apelion. | Heb ei gynllunio Cyfredol |
| - Grantiau Caledi i Denantiaid – Awst 2021 | Sgôp: Yn debyg i Grantiau 2021 hy gwirio sampl o'r ceisiadau cyn talu; dilysu'r wybodaeth a'r dogfennau; cynnal profion eraill fel y bo'n briodol; eistedd ar banel ymholi / apelion. | Heb ei gynllunio Cyfredol |
| - Gwasanaeth Cofrestru – casglu incwm | Sgôp: Gwasanaeth Cofrestru – cynnal dilysiad annibynnol o'r taliadau a ddaeth i law ac a fanciwyd tra'r oedd y swyddfa ar gau. I'w gynnal unwaith bod staff yn dychwelyd i swyddfeydd. | Wedi'i ohirio |
| - Prydau Ysgol am Ddim | Sgôp: Prydau Ysgol am Ddim – gwirio sampl o'r lwfansau a dalwyd (tocyn & arian parod); hefyd y cais i LIC. Profion archwilio cychwynnol wedi'u cwblhau - adolygiad pellach gan RhCAM. | I'w Adolygu |
| - Cyfarpar Diogelu Personol | Sgôp – Archwiliad annibynnol o'r lefelau stoc a drosglwyddwyd wrth symud o daenlenni cymryd stoc i systemau cyfrifiadurol | Heb ei gynllunio |
| Grŵp Llywio – Grant Cymorth Tai | Sgôp: Mae aelod staff Archwilio Mewnol yn rhoi sylw i'r Grŵp a gafodd y dasg o wneud yn siŵr bod trefniadau boddhaol yn eu lle o ran Llywodraethu mewn perthynas â'r Grant Cymorth Tai a rhoi cyngor ac arweiniad yn ôl y gofyn. Asesu sicrwydd o ran rhoi gweithdrefnau yn eu lle i wneud yn siŵr bod y Grŵp yn cael cefnogaeth ddigonol a'i fod yn cyflawni ei amcanion. | 6-Cyfredol |

| | | |
|---|---|---|
| Addasu'r Economi – y Drefn Reoli Arian | Sgôp: Mae aelod o'r staff Archwilio Mewnol yn mynd i gyfarfodydd y grŵp sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau boddhaol ar waith yn y Cyngor i roi cyngor ac arweiniad yn ôl y gofyn. Mae'n asesu sicrwydd y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod y Grŵp yn cael cefnogaeth ddigonol ac yn cyflawni ei amcanion. Y grŵp yn dal i gwrdd bob pythefnos. | Cyfredol |
| Archwiliadau rheolau allweddol | | |
| Y brif system gyfrifyddu | Sgôp: Prif maes risg ariannol. Cynhelir adolygiad bob tair blynedd. Mae'n ystyried y trefniadau i fonitro prif system gyfrifyddu'r Cyngor, ei chysoni, a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â pholisïau, ynghyd â'r trefniadau awdurdodi, y trefniadau i wahanu dyletswyddau, a'r cynlluniau wrth gefn. NID yw'n cynnwys y system TGCh. | Ar waith |
| Treth y Cyngor | Sgôp: Prif maes risg ariannol. Cynhelir adolygiad bob tair blynedd. Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau ar waith i brosesi taliadau treth y Cyngor: trefniadau gwahanu dyletswyddau rhwng creu a casglu debyd; trefniadau talu; cysoni'r debyd i'r rhestr prisiant; cyflymder prosesi newidiadau; postio dyddiol i'r cyfrifon; eitemau anhysbys wedi'u postio i'r cyfrif dros dro; taliadau coll; monitro casgliadau; cysoni taliadau i'r cyfriflyfr; diogelwch y system TGCh. Profion archwilio wedi'u cwblhau, adroddiad drafft wedi'i baratoi ac yn aros adolygiad ansawdd gan y Rheolwr Archwilio / Rheolwr Corfforaethol AM. | I'w Adolygu |
| Rheoli'r Trysorlys | Sgôp: Prif maes risg ariannol. Cynhelir adolygiad bob tair blynedd. Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau ar waith ar gyfer buddsoddiadau a benthyciadau: monitro cofrestri, eu cysoni gyda'r brif system gyfrifyddu, cydymffurfio â pholisïau, trefniadau awdurdodi, y trefniadau i wahanu dyletswyddau a'r cynlluniau wrth gefn. NID yw'n cynnwys y system TGCh. Adroddiad drafft wedi'i gyflwyno i'r gwasanaeth. | Mewn drafft |
| Budd-daliadau Tai | Sgôp: Prif maes risg ariannol. Cynhelir adolygiad bob tair blynedd. Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau ar waith i brosesi ceisiadau budd-daliadau tai: cynlluniau wrth gefn, cydymffurfio â'r Fframwaith Wirio Genedlaethol, ymwybyddiaeth twyll, cyflymder prosesi ceisiadau, ffeiliau paramedr y system, data'r system, adrodd eithriadau, cydlynu i'r systemau bwydo, gwirio annibynnol ar sampl o gyfrifiadau, diogelwch y system TGCh. | Cwblhawyd yn Chwarter 1 |
| Budd-daliadau Tai – Adolygiad Ansawdd 2021-22 | Sgôp: Sicrwydd ansawdd. Cwblhawyd yn flynyddol (fel arfer yn rhan o'r archwiliad rheolau allweddol). Ystyried sampl o geisiadau budd-daliadau tai o ddechrau i'r diwedd i sicrhau cyflawnrwydd a chywirdeb. | Heb ei gynllunio<br>Ar waith |
| Ardreth Annomestig Genedlaethol | Sgôp: Prif maes risg ariannol. Cynhelir adolygiad bob tair blynedd. Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau ar waith i brosesi taliadau ardreth annomestig genedlaethol: trefniadau gwahanu dyletswyddau rhwng creu a casglu debyd; modd talu; cysoni'r debyd i'r rhestr prisiant; cyflymder prosesi newidiadau; postio dyddiol i'r cyfrifon; eitemau anhysbys wedi'u postio i'r cyfrif dros dro; taliadau coll; monitro casgliadau; cysoni taliadau i'r cyfriflyfr; diogelwch y system TGCh. Profion archwilio wedi'u cwblhau, adroddiad drafft wedi'i baratoi ac yn aros adolygiad ansawdd gan y Rheolwr Archwilio / Rheolwr Corfforaethol AM. | I'w Adolygu |

| | | |
|---|---|---|
| Credydwyr | Sgôp: Prif maes risg ariannol. Cynhelir adolygiad bob tair blynedd. Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau ar waith i: awdurdodi a thalu costau'r Cyngor a'r rheolau yn y broses. Dyw'r sgôp ddim yn ystyried natur y taliad na chyflawniad gwerth am arian. Wedi'i gynnwys eleni i sicrhau bod rheolau dal mewn lle tra bod staff yn gweithio o adre. Profion archwilio wedi'u cwblhau, adroddiad drafft wedi'i baratoi ac yn aros adolygiad ansawdd gan y Rheolwr Archwilio / Rheolwr Corfforaethol AM. | Heb ei gynllunio<br>I'w Adolygu |
| Man-ddyledwyr | Sgôp: Prif maes risg ariannol. Cynhelir adolygiad bob tair blynedd. Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau ar waith i: godi archebion i ddyledwyr y Cyngor; cywirdeb gwerth a codio; prydlondeb yn codi'r anfonebau; monitro casgliadau; dyled yn cae ei wirio'n annibynnol i'r cyfriflyfr; casglu ôl-ddyledion ar waith; atebolrwydd anfonebau; diogelwch y system. Wedi'i gynnwys eleni i sicrhau bod rheolau dal mewn lle tra bod staff yn gweithio o adre. Profion archwilio wedi'u cwblhau, adroddiad drafft wedi'i baratoi ac yn aros adolygiad ansawdd gan y Rheolwr Archwilio / Rheolwr Corfforaethol AM. | Heb ei gynllunio<br>I'w Adolygu |
| Y gyflogres | Sgôp: Maes allweddol o ran risg ariannol. Caiff ei gwblhau bob 3 blynedd. Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau ar gyfer prosesu'r gyflogres gan gynnwys gwahaniaethu rhwng y gwaith o greu a diwygio rolau swyddi a manylion staff a'r gwaith o brosesu'r gyflogres; mae hefyd yn ystyried diogelwch y system. NID yw hyn yn cynnwys y system TGCh. Archwiliad ar y gweill. | Heb ei gynllunio<br>Ar waith |
| Adolygiad dilynol o gamau gweithredu 2018/19 ymlaen | Sgôp: Sicrwydd bod y camau gweithredu a gafodd eu hargymell mewn archwiliadau blaenorol wedi'u cwblhau lle bo'n briodol. Taenlen wedi'i pharatoi o'r holl gamau gweithredu sydd angen ail-edrych arnynt sy'n cael ei ddiweddaru'n reolaidd. I'w gynnal unwaith bod staff yn dychwelyd i swyddfeydd. | Wedi'i ohirio |
| Llywodraethu Corfforaethol | | |
| Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Sgôp: Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cael ei redeg ar sail adolygiad cyson. Mewnbwn i derfynu DLIB 2020/21 a system 2021/22, lle mae'n briodol, trwy gydol y flwyddyn. | Cyfredol |
| Adolygu Fframwaith Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 | Sgôp: Adolygiad llywodraethu sy'n ystyried effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu, yn enwedig y meysydd cyfeirir ato yn rhaglen weithredol y DLIB. | Cwblhawyd yn Chwarter 4 |
| Y Grŵp Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes | Sgôp: Mae aelod o'r staff Archwilio Mewnol yn mynd i gyfarfodydd y grŵp sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau boddhaol ar waith yn y Cyngor i roi cyngor ac arweiniad yn ôl y gofyn. Mae'n asesu sicrwydd y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod y Grŵp yn cael cefnogaeth ddigonol ac yn cyflawni ei amcanion. Cafodd y grŵp ei ddisodli gan y Drefn Rheoli Aur/Arian oherwydd y pandemig, ond ail-gychwynnodd y cyfarfodydd Mis Ebrill – cwrdd yn chwarterol. | Cyfredol |
| Blychau Ystafelloedd Gorffwys mewn Argyfwng | Sgôp: mewnbwn AM i archwiliad y gwasanaeth o'r blychau ystafelloedd gorffwys mewn argyfwng, i sicrhau diogelwch y blychau wedi'u lleoli mewn safleoedd penodol. | Heb ei gynllunio<br>Cwblhawyd yn Chwarter 2 |
| Parhad Busnes | Sgôp: Adolygiad o'r risg gan ystyried y trefniadau sydd ar waith ynghylch Parhad Busnes. Rhoddir sicrwydd drwy asesu'r gweithdrefnau sydd wedi'u nodi yn y Cynlluniau Parhad Busnes Corfforaethol a Chynlluniau Parhad Busnes y Gwasanaethau | Ar waith |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygu'r Cyfansoddiad | Sgôp: Mae'r Cyfansoddiad yn cael ei adolygu'n reolaidd gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Llywodraethu i sicrhau ei bod yn gyfoes ac yn briodol. Archwilio Mewnol yn cael mewnbwn yn ôl y gofyn. Sicrwydd yn cael ei asesu ar y broses ar waith. | Cyfredol |
| Rheoli Risg a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol: | | |
| Rheoli Risg | Sgôp: Mae trefniadau'r Fframwaith Risg yn cael ei monitro a'i adrodd yn reolaidd i'r PLIA. Archwilio Mewnol yn cyfannu lle mae'n briodol. | |
| Y Gofrestr Risg Gorfforaethol: Gwirio'r rheolau sydd ar waith i liniaru risgiau | Sgôp: Rheoli risg. Mae'r adolygiad yn asesu pa mor effeithiol yw'r trefniadau sydd ar waith i reoli'r risgiau a nodir yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Byddwn yn dewis elfennau penodol ac yn adolygu effeithiolrwydd y rheolaethau a bennwyd i'w lliniaru. Cyfyngir cwmpas yr archwiliad i'r trefniadau a nodir yn yr adroddiad. | Cyfredol |
| Grŵp Brexit | Sgôp: Mae aelod o'r staff Archwilio Mewnol yn mynd i gyfarfodydd y grŵp sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau boddhaol ar waith yn y Cyngor i roi cyngor ac arweiniad yn ôl y gofyn. Mae'n asesu sicrwydd y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod y Grŵp yn cael cefnogaeth ddigonol ac yn cyflawni ei amcanion. Cwrdd yn chwarterol. | Cyfredol |
| Brexit | Sgôp: Adolygiad risg sy'n ystyried y trefniadau mewn lle i monitro newidiadau o ganlyn Brexit. Ar waith. | Heb ei gynllunio<br>Ar waith |
| Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / Cydraddoldeb | | |
| Ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y gwasanaethau | Sgôp: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod gwasanaethau'n rhoi sylw i amcanion corfforaethol yn eu cynlluniau, a'u bod wedi ystyried gofynion y Ddeddf. Byddwn yn adolygu'r rhaglen gychwynnol o gamau gofynnol o dan y Ddeddf, ac yn gwirio sampl o'r dystiolaeth. | Cwblhawyd yn Chwarter 2 |
| Adolygu ac asesu Asesiadau Effaith Integredig | Sgôp: Mae'r adolygiad yn ystyried y trefniadau sydd ar waith i baratoi ac i gyflwyno Asesiadau Effaith Integredig, a'r cysondeb o ran y modd y maent yn cael eu paratoi. | |
| Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol | Sgôp: Adolygiad o'r trefniadau sydd mewn lle i gydymffurfio gyda gofynion y Ddyletswydd newydd. Profion archwilio wedi'u cwblhau, adroddiad drafft wedi'i baratoi ac yn aros adolygiad ansawdd gan y Rheolwr Archwilio / Rheolwr Corfforaethol AM. | I'w Adolygu |
| Safonau Cymraeg | Sgôp: Archwiliad i ystyried y trefniadau mewn lle i gydymffurfio gyda gofynion y Safonai Cymraeg. | Heb ei gynllunio<br>I'w Adolygu |
| Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) | | |

| | | |
|---|---|---|
| Cydymffurfio gyda'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth) | Sgôp: GDPR. Daeth y Rheoliad i rym ym mis Mai 2018 ac mae wedi effeithio'n fawr ar y modd y caiff data eu cadw a'u diogelu. Os na fydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheoliad, gallai beryglu ei enw da a gallai wynebu cosb ariannol. Bydd yr adolygiad yn asesu trefniadau'r Cyngor i gydymffurfio â gwahanol rannau o'r Rheoliad, ee hysbysiadau preifatrwydd ac archwiliadau data. | Ar waith |
| Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn yr Ysgolion | Sgôp: Mae'n rhaid i bob ysgol sy'n prosesu data personol dalu ffi i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG). Mae'r adolygiad yn cynnwys gwirio'r sefyllfa yn achlysurol, er mwyn sicrhau bod holl ysgolion CSC wedi talu eu ffi flynyddol i SCG. NID yw'r gwaith yn cynnwys adolygiad o'r data a ddarparwyd i SCG. | Cwblhawyd yn Chwarter 1 |
| Ddiogelu Data yn yr Ysgolion – archwiliad dilynol | Sgôp: Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Dilynol i'r uchod. Profion archwilio wedi'u cwblhau, adroddiad drafft wedi'i baratoi ac yn aros adolygiad ansawdd gan y Rheolwr Archwilio / Rheolwr Corfforaethol AM. | Cwblhawyd yn Chwarter 4 |
| Tîm Llywodraethu Gwybodaeth | Sgôp: Mae'r tîm llywodraethu gwybodaeth yn cwrdd yn fisol. Nid oes aelod o archwilio mewnol yn mynychu'r cyfarfodydd, ond mae'r RhCAM yn cael gair gyda'r Swyddog Diogelu Data yn reolaidd ar gyfer sicrwydd. | Cyfredol |
| Prosiectau | | |
| Y Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol | Sgôp: Prosiectau newydd. Mae aelod o'r staff Archwilio Mewnol yn mynd i'r cyfarfodydd i sicrhau ein bod yn gwybod am unrhyw newidiadau mawr i systemau ac i benderfynu a oes angen i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol gyfrannu at y gwaith. Mae'n asesu sicrwydd y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod y Panel yn cael cefnogaeth ddigonol ac yn cyflawni ei amcanion. Cwrdd bob pythefnos. | Cyfredol |
| Grŵp Datblygu | Sgôp: Mae aelod o'r staff Archwilio Mewnol yn mynd i'r cyfarfodydd i sicrhau ein bod yn gwybod am unrhyw newidiadau mawr i systemau ac i benderfynu a oes angen i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol gyfrannu at y gwaith. Mae'n asesu sicrwydd y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod y Grŵp yn cael cefnogaeth ddigonol ac yn cyflawni ei amcanion. Cwrdd yn chwarterol. | Cyfredol |
| Rheolaeth Gorfforaethol | | |
| Gweithdy'r Rheolwyr Corfforaethol | Sgôp: Mae'r RhCam yn mynd i'r cyfarfodydd i sicrhau ein bod yn gwybod am unrhyw newidiadau mawr i systemau ac i benderfynu a oes angen i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol gyfrannu at y gwaith. Mae'n asesu sicrwydd y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod y Grŵp yn cael cefnogaeth ddigonol ac yn cyflawni ei amcanion. Cwrdd yn chwarterol. | Cyfredol |
| Grantiau | | |
| Cyllid Ôl-16 - 2020/21 | Sgôp: Archwilio grantiau. Casglu gohebiaeth a gwybodaeth i'w hanfon at Lywodraeth Cymru i ategu'r datganiadau a wnaed. I'w gyflawni yn chwarter 4. | |

| | | |
|---|---|---|
| Grant Gwella Addysg - 2020/21 archwiliad terfynol diwedd blwyddyn | Sgôp: Archwilio grantiau. Cwblhau rhestr wirio a rhestr brofi archwiliad diwedd blwyddyn i roi sicrwydd ei fod yn cael ei wario a'i weinyddu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Hefyd, ardystio Ffurflen Hawlio Diwedd Blwyddyn i gadarnhau bod yr arian a ddarparwyd gan y rhoddwr grant yn 2020/21 wedi'i ddyrannu'n briodol at ddibenion y grant, yn unol â thelerau ac amodau ariannu'r rhoddwr grant ac yn unol â gofynion cydymffurfio ac archwilio cyfredol y derbynnydd grant. | Cwblhawyd yn Chwarter 3 |
| Grant Datblygu Disgyblion - 2020/21 archwiliad terfynol diwedd blwyddyn | Sgôp: Archwilio grantiau. Cwblhau rhestr wirio a rhestr brofi archwiliad diwedd blwyddyn i roi sicrwydd ei fod yn cael ei wario a'i weinyddu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Hefyd, ardystio Ffurflen Hawlio Diwedd Blwyddyn i gadarnhau bod yr arian a ddarparwyd gan y rhoddwr grant yn 2020/21 wedi'i ddyrannu'n briodol at ddibenion y grant, yn unol â thelerau ac amodau ariannu'r rhoddwr grant ac yn unol â gofynion cydymffurfio ac archwilio cyfredol y derbynnydd grant. | Cwblhawyd yn Chwarter 3 |
| Gwasanaethau a Systemau Eraill | | |
| CLIC | Sgôp: Gwerthuso'r gwasanaeth a ddarperir – cwmpas yr archwiliad i'w gytuno. I'w gynnal unwaith bod staff yn dychwelyd i swyddfeydd. | Wedi'i ohirio |
| Cardiau Credyd | Archwilio system. Canolbwyntio ar systemau / cardiau newydd. Dogfennu'r system; pennu'r risgiau yn y system; gwerthuso'r trefniadau llywodraethu a'r rheolaethau gofynnol; profi'r system. Cododd cwestiynau yn dilyn adolygiad ansawdd sydd angen sylw unwaith bod staff yn dychwelyd i'w swyddfeydd. Cyhoeddwyd adroddiad 25/3/21 yn sgil camau gofynnol. Ni roddir sicrwydd nes bod gwaith ychwanegol wedi'i gyflawni. | Wedi'i ohirio |
| Arian Parod a Chronfeydd Arian Mân | Sgôp: Gwirio prosesau terfynol diwedd blwyddyn i cysoni'r cronfeydd i brif system gyfrifyddu y Cyngor, a'r dogfennau dychwelwyd gan wasanaethau i'w cefnogi. | Cwblhawyd yn Chwarter 2 |
| Arian Parod a Chronfeydd Arian Mân | Sgôp: Archwiliad dilynol i'r uchod. Helpu roi'r camau newydd mewn lle yn unol a'r canllawiau. | Heb ei gynllunio Ar waith |
| Cyfrif yr Harbyrau 2020/21 | Sgôp: Rhaid i'r Cyngor baratoi cyfrifon blynyddol gan ddilyn arferion priodol fel y'u nodir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Llywodraeth Leol, Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru – Canllaw i Ymarferwyr. Mae'r Canllaw yn datgan y caiff cyrff baratoi eu cyfrifon gan ddefnyddio ffurflen flynyddol a baratoir gan Archwilio Cymru sy'n cynnwys mewnbwn gan y gwasanaeth archwilio mewnol o ran paratoi'r cyfrifon. Roedd hyn yn ymwneud â chyfrif 2020/21. | Cwblhawyd yn Chwarter 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygiad o'r Harbyrau (Cyllid) | Sgôp: Profion i gefnogi cyfrif yr Harbyrau, yn ôl hyn y nodwyd gan ffurflen AW: cadwyd llyfrau cyfrif addas, cydymffurfiwyd a'r rheoliadau cyllidol, mesurwyd risgiau, proses cynilo addas, derbyniwyd yr oll arian y disgwyliwyd, gweithredwyd cyflogau a chasgliadau yn gywir, cadwyd cofrestrau asedau a buddsoddiadau, a pharatowyd dadansoddiadau cyfrifon cywir. | Heb ei gynllunio Cwblhawyd yn Chwarter 1 |
| Adolygiad o'r Harbyrau (IA) | Sgôp: Profion i gefnogi cyfrif yr Harbyrau, yn ôl hyn y nodwyd gan ffurflen AW. Darparwyd i Cyllid yn chwarter 1 i gefnogi gwaith y cyfrif. Paratowyd drafft hefyd i Iechyd yr Amgylchedd sy'n gweithredu'r harbyrau'n ddyddiol, i gyflawni'r camau gofynnol o samplo'r cyfrif. | Heb ei gynllunio Cwblhawyd yn Chwarter 2 |
| TAW | Sgôp: Profion ar gyfrifo a chodio taliadau TAW gan gynnwys anfonebau credydwyr a dyledwyr a thrafodion eiddo. Ystyried a ydy'r canllawiau o ran TAW yn cyd-fynd â gofynion HMRC. Gwirio bod TAW yn cael ei gyfrifo ar y gyfradd gywir ac yn amserol a bod y ffurflen TAW yn cael ei chwblhau'n gywir a'i chyflwyno'n brydlon. | Ar waith |
| Canolfan Llesiant Llambed - Derbynfa | Sgôp: Gwasanaeth newydd Canolfan Llesiant Llambed (Canolfan Hamdden gynt). Gofynnwyd am gyngor cyf rheolau a diogelwch ar broses derbyn arian yn y dderbynfa. | Heb ei gynllunio Cwblhawyd yn Chwarter 1 |
| Canolfan Llesiant Llambed | Sgôp: Gwasanaeth newydd Canolfan Llesiant Llambed (Canolfan Hamdden gynt). Yn ogystal â'r dymuniad am gyngor cyf rheolau a diogelwch ar broses derbyn arian yn y dderbynfa (gweler uchod), bydd y gwasanaeth yn cynnwys AM wrth baratoi'r systemau newydd i gynnwys yr amnewidiad i'r system bwcio cyfoes. | Heb ei gynllunio |
| Cyngor Chwaraeon Ceredigion | Sgôp: Archwilio cyfrif. Yn hanesyddol, mae AM yn paratoi ac yn archwilio cyfrifon blynyddol y corff erbyn ei Gyfarfod Blynyddol Cyffredinol. | |
| AD – Casgliad JustGiving | Sgôp: Gofynnwyd i AM gan AD i adolygu'r broses casglu rhoddion ar gyfer elusen banciau bwyd gan staff. | Cwblhawyd yn Chwarter 2 |
| Gwastraff | Gwerthuso'r gweithdrefnau a gyflwynwyd i gasglu gwastraff, yn unol â'r drafodaeth ag AC. Ystyried trefniadau llywodraethu'r system – yn enwedig sefyllfa'r Strategaeth. Sut aethpwyd i'r afael â phroblemau ee gwylanod? A gafwyd llwyddiant? Os na, pam? Beth sydd yn yr arfaeth? Ymgysylltu â'r cyhoedd? Penodwyd SLR Group Limited (SLR) gan y Cyngor i archwilio opsiynau ystyrlon ar gyfer rheoli gwastraff yng Ngheredigion yn y dyfodol. Mae'r angen i'r strategaeth derfynol ffurfio llinell sylfaen ar gyfer Adolygiad Gwerth Gorau o Reolaeth Gwastraff hefyd yn rhan o'r Briff. | Wedi'i ohirio |
| Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS) | Sgôp: Gwirio bod gan y Cyngor systemau mewn lle, i gydymffurfio hefo gofynion. Profion archwilio wedi'u cwblhau, adroddiad drafft wedi'i baratoi ac yn aros adolygiad ansawdd gan y Rheolwr Archwilio / Rheolwr Corfforaethol AM. | I'w Adolygu |

| | | |
|---|---|---|
| Archwiliad Amgylcheddol | Sgôp: Gwirio bod gan y Cyngor systemau mewn lle, i gydymffurfio hefo gofynion. Profion archwilio wedi'u cwblhau, adroddiad drafft wedi'i baratoi ac yn aros adolygiad ansawdd gan y Rheolwr Archwilio / Rheolwr Corfforaethol AM. | I'w Adolygu |
| Gwasanaeth Ystadau – Methiant cyfathrebu gyda AC | Sgôp: Ymchwiliad i ddarganfod y rheswm bu methiant yn y cyfathrebu rhwng staff gwasanaeth ystadau a Archwilio Cymru tra'n paratoi'r archwiliad allanol o'r cyfrifon, yn ôl gofyn y PLIA. | Heb ei gynllunio Cwblhawyd yn Chwarter 2 |
| Amgueddfa | Sgôp: Archwilio system. I ganolbwyntio ar wasanaethau newydd 'arian parod' a 'stoc' cyflwynwyd i'r Amgueddfa hy caffeteria, siop a bar. (Dogfennu systemau. Penodi'r risgiau yn y system; a'r modd llywodraethu a rheolau y disgwylir. Profi) Cododd cwestiynau yn dilyn adolygiad ansawdd sydd angen sylw unwaith bod staff yn dychwelyd i'w swyddfeydd. | Wedi'i ohirio |
| Troi Tai'n Gartrefi - cyffredinol | Sgôp: Menter eiddo gwag. Cais i adolygu'r gweithdrefnau. Cytunir ar gwmpas yr archwiliad. I'w gynnal unwaith bod staff yn dychwelyd i swyddfeydd. | Wedi'i ohirio |
| Crwner – Adroddiad Cryno | Sgôp: Crynodeb o'r adroddiadau archwilio blaenorol cyf Gwerth am Arian. | Heb ei gynllunio Cwblhawyd yn Chwarter 1 |
| Crwner – Adroddiad Dilynol | Sgôp: Yn dilyn ymlaen i'r adroddiad dyddiedig 23/6/21 y cyflwynwyd yn bapur eithriedig i'r PLIA ar 9/9/21. Darparwyd gwybodaeth ychwanegol, yn unol a'r gofyn, ar gyfer pwrpasau cymharu. | Heb ei gynllunio Cwblhawyd yn Chwarter 2 |
| Crwner – System Newydd | Sgôp: Sefydlu system newydd i gysoni'r gwasanaeth gyda system Archebion / Taliadau y Cyngor. | Cyfredol |
| Crwner – Cymharu Ffioedd ag Awdurdodau Lleol eraill | Sgôp: Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gymharu ffioedd Trefnwyr Angladdau Ceredigion â ffioedd Trefnwyr Angladdau Awdurdodau Lleol eraill Cymru. Archwiliad ar y gweill. | Cwblhawyd yn Chwarter 4 |
| Diogelu | | |
| Gweithdrefnau diogelu'r gwasanaethau | Sgôp: Sicrhau bod pob gwasanaeth wedi cyflwyno polisi diogelu ar gyfer staff, a'i fod yn cael ei archwilio'n rheolaidd. I'w gynnal unwaith bod staff yn dychwelyd i swyddfeydd. | Wedi'i ohirio |
| Gweithdrefnau diogelu corfforaethol | Sgôp: Archwiliad system, wedi'i selio ar argymhellion CIPFA o'i canllawiau ar TISonline. Ambell prawf heb ei wneud oherwydd y pandemig. Profion archwilio wedi'u cwblhau, adroddiad drafft wedi'i baratoi ac yn aros adolygiad ansawdd gan y Rheolwr Archwilio/Rheolwr Corfforaethol AM. | I'w Adolygu |
| Taliadau Uniongyrchol | Sgôp: Sicrhau bod rheolau yn y system newydd o Ebrill 2021. | Ar waith |
| Atal Twyll (gan gynnwys y Fenter Twyll Genedlaethol) | | |

| | | |
|---|---|---|
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Sgôp: Mae'r adolygiad hwn yn rhoi sicrwydd rhag niwed i enw da'r Cyngor a cholledion ariannol oherwydd gweithgarwch twyllodrus, a hynny drwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol sy'n paru data electronig cyrff yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i atal ac i ganfod twyll. | Cyfredol |
| Strategaeth Atal Twyll | Sgôp: Adolygiad pob tair-mlynedd i'w weini yn 2021. Cydlynwyd diweddariad y Strategaeth gan AM; cymeradwywyd gan PLlA 3/6/21 a'i gyflwyno i'r Cyngor 17/6/21 am gymeradwyaeth terfynol. Mae'r Strategaeth cyfoes ar y wefan erbyn hyn. | Cwblhawyd yn Chwarter 1 |
| Modiwl hyfforddiant Cod, Moeseg a Thwyll | Sgôp: Yn dilyn cyflwyniad llwyddiannus gan Zurich i'r Gweithdy Rheolwyr ar 28/5/21 mae trefniadau ar waith gan Ddysgu & Datblygu i ymgorffori'r wybodaeth mewn modiwl e-ddysgu i staff ac Aelodau. | Ar waith |
| Archwiliad Moeseg | Sgôp: Archwiliad system, wedi'i selio ar argymhellion CIPFA o'i canllawiau ar TISonline. Ambell prawf heb ei wneud oherwydd y pandemig. Profion archwilio wedi'u cwblhau, adroddiad drafft wedi'i baratoi ac yn aros adolygiad ansawdd gan y Rheolwr Archwilio / Rheolwr Corfforaethol AM. | I'w Adolygu |
| Adolygiad y Cod Ymddygiad | Sgôp: Mae'r Cod yn cael ei adolygu'n reolaidd gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Llywodraethu i sicrhau ei bod yn gyfoes ac yn briodol. Archwilio Mewnol yn cael mewnbwn yn ôl y gofyn. Sicrwydd yn cael ei asesu ar y broses ar waith. | Cyfredol |
| Active Data | Unioni / dadansoddi data. Mae'r adolygiad hwn yn rhoi sicrwydd rhag niwed i enw da'r Cyngor a cholledion ariannol oherwydd gweithgarwch twyllodrus, a hynny drwy ddefnyddio'r system analytig data 'Active Data'. | |
| - Grantiau Ardrethi Busnes, ayb | Sgôp: Defnyddio ActiveData i wirio'r ddogfen taliadau grantiau yn erbyn unrhyw wybodaeth amheus sy'n dod i'r golwg ee rhybuddion o NAFN (Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol). | Cyfredol |
| Papur Archwilio Alban | Sgôp: Holiadur i reolwyr ar drefniadau atal twyll, rheoli risg, ayb. I'w amgylchu unwaith bod staff yn dychwelyd i swyddfeydd. | Wedi'i ohirio |
| Twyll Mandad | Sgôp: Darpar cymorth mewn achlysur; hy pan fydd rhywun yn dynwared trydydd parti, megis cyflenwr, ac yn mynnu taliad brys, ee credydwr yn newid ei fanylion banc. Angen ei adrodd i'r Ganolfan Seiber Ddiogelwch Genedlaethol. | Cyfredol |
| Twyll Mandad - Canllawiau | Sgôp: Mae canllawiau gweithredol y gwasanaeth yn cael eu diweddaru ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn briodol. Gofynnwyd AM am fewnbwn. | Cwblhawyd yn Chwarter 1 |
| Caffael | Sgôp: Gwirio sampl o'r credydwyr newydd i sicrhau eu bod yn fusnesau go iawn. | Cyfredol |
| Recriwtio | Sgôp: Gwirio sampl o'r penodiadau newydd i sicrhau bod yr holl fanylion gofynnol wedi'u darparu. I'w gynnal unwaith bod staff yn dychwelyd i swyddfeydd. | Wedi'i ohirio |
| Y Gyflogres | Sgôp: Gwirio sampl o'r penodiadau newydd i sicrhau bod yr unigolion mewn swydd. | Cyfredol |
| Teithio | Sgôp: Gwirio sampl o geisiadau teithio i sicrhau bod nifer y milltiroedd yn addas a cywir. | Cyfredol |
| Archwilio TGCh | | |

| | | |
|---|---|---|
| Safon PCI (Diwydiant Carden Taliad) | Sgôp: Gwirio cydymffurfiaeth â gofynion y Safon. I'w gynnal unwaith bod staff yn dychwelyd i swyddfeydd. | Wedi'i ohirio |
| Logiau Archwilio | Sgôp: Profi'r logiau archwilio a gynhyrchir gan sampl o'r systemau, a gwerthuso'r modd y mae'r gwasanaeth yn eu defnyddio. I'w gynnal unwaith bod staff yn dychwelyd i swyddfeydd.. | Wedi'i ohirio |
| Diogelwch – ffisegol ac amgylcheddol | Sgôp: Gwerthuso trefniadau diogelwch y prif adeiladu (ac yna i'w gyflwyno mewn swyddfeydd llai o faint a sefydliadau eraill fel ysgolion).. I'w gynnal unwaith bod staff yn dychwelyd i swyddfeydd.. | Wedi'i ohirio |
| Grŵp Ystwythder Seiber a Llywodraethu Gwybodaeth | Sgôp: Mae aelod o'r staff Archwilio Mewnol yn mynd i gyfarfodydd y grŵp sy'n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau boddhaol ar waith yn y Cyngor i roi cyngor ac arweiniad yn ôl y gofyn. Mae'n asesu sicrwydd y gweithdrefnau sydd ar waith i sicrhau bod y Grŵp yn cael cefnogaeth ddigonol ac yn cyflawni ei amcanion. Bydd y grŵp yn ystyried a lleihau risg seiber a gwella diogelwch seiber y Cyngor, diogelwch gwybodaeth a llywodraethu. Cwrdd yn fisol. | Cyfredol |
| Archwilwyr Gogledd a Chanolbarth Cymru - Grŵp Twyll | Sgôp: NMWA - Grŵp Twyll: Mae aelod o'r staff Archwilio Mewnol yn mynd i gyfarfodydd y grŵp sy'n gyfrifol am rhannu gwybodaeth a & sgiliau cyf atal twyll i adeiladu ystwythder trwy'r Cynghorau. Cwrdd yn chwarterol. | Heb ei gynllunio<br>Cyfredol |
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | | |
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Sgôp: Cefnogi PLIA. Proses sicrwydd i sicrhau bod gan y Cyngor gwrth drefnau mewn lle i gynllunio, paratoi a trefnu i gydymffurfio gyda'r gofynion newydd. | Cyfredol |
| Cyflwyniad Grwpiau Cydbwyllgor Corfforaethol | Sgôp: Proses sicrwydd i sicrhau bod gan y Cyngor gwrth drefnau mewn lle i gynllunio, paratoi a trefnu i gydymffurfio gyda'r gofynion newydd. | Cyfredol |
| Trefniadau Hunan-asesiad | Sgôp: Cefnogi PLIA. Proses sicrwydd i sicrhau bod gan y Cyngor gwrth drefnau mewn lle i gynllunio, paratoi a trefnu i gydymffurfio gyda'r gofynion newydd. | |
| Ymgynghorol (ac eraill) | | |
| Cefnogi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Sgôp: Cynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio yn ôl y gofyn. | Cyfredol |
| Protocol AC | Sgôp: Cefnogi PLIA. Proses sicrwydd i sicrhau bod gan y Cyngor gwrth drefnau mewn lle i gynllunio, paratoi a trefnu i gydymffurfio gyda'r protocol newydd. | Cyfredol |
| Ffurflen Ymateb Rheolwyr AC - NFI 2018-21 | Sgôp: Llenwi, monitro a diweddaru'r ffurflen ar gyfer NFI. | Cwblhawyd yn Chwarter 3 |
| Ffurflen Ymateb Rheolwyr AC – Taclo Twyll | Sgôp: Llenwi, monitro a diweddaru'r ffurflen ar gyfer trefniadau twyll. | Cyfredol |
| Rheoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol | Sgôp: Mewnbwn AM i'r ymgynghoriad. Posibilrwydd o adolygiad pellach yn dibynnu ar canlyniad yr ymgynghoriad. | Cwblhawyd yn Chwarter 3 |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithdrefnau Bancio Incwm | Rhoi cyngor ar weithdrefnau bancio newydd o ran yr incwm a gesglir o leoliadau CSC. | Heb ei gynllunio<br>Cwblhawyd yn Chwarter 4 |
| Adolygiadau ychwanegol / ymholiadau / adolygiadau wrth gefn | | |
| Llyfrgell / Swyddfa Leol Llambed | Sgôp: Gofynnwyd am gyngor ynglŷn â mater diogelu arian. | Heb ei gynllunio<br>Cwblhawyd yn Chwarter 1 |
| Caffael – gweithdrefnau prynu | Ymholiad gan adran Caffael ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer cofnodi cyflenwadau a ddanfonir i gartrefi aelodau staff ee deunydd ysgrifennu ac ati. | Heb ei gynllunio<br>Cwblhawyd yn Chwarter 4 |
| Canolfan Hamdden Plascrug – gwerthu | Ymholiad o Blascrug ynghylch symud peiriannau gwerthu o'r Ganolfan Hamdden a gwerthu stoc dros y cownter. | Heb ei gynllunio<br>Cwblhawyd yn Chwarter 4 |
| Cynllun Gofal Plant | Ymgymerwyd ag ymchwil ac ymholiadau cychwynnol – sgôp i'w benderfynu. | Heb ei gynllunio<br>Wedi'i neilltuo |
| Canolfan Groeso Frys | Sgôp: rhoi cyngor ar drefniadau llywodraethu a rheolaethau'r Ganolfan Groeso Frys | Heb ei gynllunio<br>Cyfredol |
| Sicrwydd | | |
| Mapio Sicrwydd | Sgôp: Ystyried sicrwydd sydd ar gael o ffynonellau eraill. | Cyfredol |

Atodiad II

Canllaw i'r meini prawf sicrwydd a ddefnyddiwyd:

| Lefel: | Uchel | Sylweddol | Cymedrol | Cyfyngedig |
|---|---|---|---|---|
| **Digonolrwydd y rheolaethau:** | Mae rheolaethau ar waith i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i amddiffyn y Cyngor yn erbyn risgiau rhagweladwy sylweddol. Ni chanfuwyd dim gwendidau sylfaenol. | Mae rheolaethau ar waith i sicrhau bod amcanion y gwasanaeth yn cael eu cyflawni ac i leihau risgiau rhagweladwy sylweddol. Nodwyd rhai meysydd i'w gwella. | Mae rheolaethau ar waith i raddau amrywiol. Nodwyd bylchau sy'n golygu bod y gwasanaeth yn agored i risgiau penodol. Mae angen sicrhau gwelliannau. | Ystyrir bod y rheolaethau yn annigonol. Mae angen cryfhau'r gweithdrefnau yn fawr gan sicrhau cydymffurfiaeth. |
| **Risgiau:** | Mân risgiau yn unig. | Mae'r cyfle yn bodoli i wella'r sefyllfa o ran bod yn agored i risg. | Mae angen cyflwyno rheolaethau ychwanegol a/neu wella cydymffurfiaeth. | Os na chaiff y rheolaethau eu gwella, mae'r Cyngor yn agored i risg sylweddol (colled ariannol fawr, colli enw da, methu â chyflawni amcanion allweddol y gwasanaeth). |
| **Canllaw:** | Nid oes angen cymryd camau gweithredu sylfaenol na sylweddol. | Nid oes angen cymryd camau gweithredu sylfaenol . Mae angen cymryd rhai camau gweithredu sylweddol. | Mae angen cymryd nifer o gamau gweithredu sylweddol. | Mae angen cymryd nifer o gamau gweithredu sylfaenol / sylweddol. |
| **Camau dilynol sydd angen eu cymryd:** | Archwiliad cychwynnol yn unig. | Camau dilynol o ran unrhyw gamau gweithredu sylweddol yn unig / hunanasesiad gyda samplau i ddangos tystiolaeth o gydymffurfio. | Camau dilynol i'w cymryd gan Archwilio Mewnol gan gynnwys cynnal profion sampl i sicrhau bod pob cam wedi'i weithredu ac i ailasesu'r sicrwydd. | Camau dilynol i'w cymryd gan Archwilio Mewnol gan gynnwys cynnal profion llawn i sicrhau bod pob cam wedi'i weithredu ac i ailasesu'r sicrwydd. |

Canllaw i'r camau gweithredu fesul dosbarth:

**Y camau gweithredu fesul dosbarth**

| Sylfaenol | Sylweddol | Cymedrol | Teilyngu sylw |
|---|---|---|---|
| Gwendid sy'n hanfodol i reoli'r risg o fewn y gwasanaeth. Angen rhoi gwybod amdano ac angen i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol roi sylw iddo. | Canfyddiadau pwysig sy'n nodi na chydymffurfiwyd â'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu a allai arwain at risg ariannol i'r gwasanaeth neu golli enw da. | Canfyddiadau pwysig sy'n nodi na chydymffurfiwyd â'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ond nad ydyw'n risg fawr i'r gwasanaeth o ran colled ariannol / colli enw da. | Eitemau lle mae angen cymryd ychydig o gamau neu ddim camau o gwbl. Wedi'i gynnwys gan y gallai fod o ddiddordeb i'r gwasanaeth neu am ei fod yn rhoi cyngor ynghylch arferion gorau. |

**Strwythur yr Adain Archwilio Mewnol o 1 Tachwedd 2020**




Strwythur Archwilio Mewnol Arfaethedig
Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol
Rheolwr Archwilio
Uwch-archwilydd
Archwilydd
Archwilydd
Cynorthwyydd Llywodraethu ac Archwilio
Swyddog Llywodraethu